

## **Prosiect cyffrous am gadwraeth twyni tywod yn lansio bwrsariaethau i fyfyrwyr o hyd at £500 yng Nghymru**

**Mae Twyni ar Symud yn cefnogi myfyrwyr a phobl ifanc yng Nghymru i gymryd rhan mewn gwaith arloesol i adfer cynefinoedd – gan helpu i roi hwb i yrfaedd newydd ym maes cadwraeth.**

Mae twyni tywod arfordirol yn gartref i blanhigion ac anifeiliaid prin ac arbenigol anhygoel, gan gynnwys madfall y tywod a thegeirianau hardd, ond maent hefyd wedi'u rhestru fel un o'r cynefinoedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn Ewrop o ran colli bioamrywiaeth. Mae Twyni ar Symud yn gweithio i adfer llawer o gynefinoedd twyni tywod pwysig Cymru er budd i fioamrywiaeth, a hefyd i gymunedau. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n arwain ar Twyni ar Symud yng Nghymru, a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n ei gyllido.

Mae ceisiadau am fwrsariaethau rhwng £150 a £500 bellach ar agor. Mae'r cyllid ar gael i fyfyrwyr Safon Uwch, israddedig a gradd feistr rhwng 16 a 30 oed – ac yn hollbwysig, hefyd i bobl ifanc sydd ddim mewn addysg. Gall ymgeiswyr weithio gyda tîm Twyni ar Symud i greu eu prosiect eu hunain wedi'i deilwra i'w diddordebau neu feysydd ymchwil eu hunain, neu gall myfyrwyr ymgymryd ag un o'r prosiectau a awgrymwyd eisoes ar [wefan Twyni ar Symud](#).

Gan weithio'n agos gyda'r rheolwyr safle a'r ecolegwyr ym mhob un o'r cynefinoedd twyni tywod hardd hyn, mae'r prosiectau hyn yn gyfle gwych i bobl ifanc ennill profiad ymarferol o reoli cynefinoedd, cael hyfforddiant, cael cefnogaeth ar gyfer prosiectau ymchwil myfyrwyr academiaidd neu ddysgu mwy am agweddau ymgysylltu a chyfathrebu prosiectau cadwraeth. Gellir gwario'r bwrsariaethau ar bethau fel offer, trafndiaeth, bwyd ac adnoddau.

Gellir ymgymryd â phrosiectau yn llawer o'r safleoedd ble mae tîm Twyni ar Symud yn gweithio, gan gynnwys GNG Oxwich, Penmaen/Bae'r Tri Chlogwyn, SoDdGA Pen-bre, Twyni Crymlyn, Twyni Baglan, Pen Llŷn, ac Ynys Môn.

Mae dau gyfle i wneud cais am gyllid eleni. Gwnewch gais erbyn Mawrth 31<sup>ain</sup> ar gyfer cwblhau prosiectau rhwng Ebrill 2021 a Rhagfyr 2021. Neu, gwnewch gais erbyn Mai 31<sup>ain</sup> ar gyfer cwblhau prosiectau rhwng haf 2021 a haf 2022.

Mae'r bwrsariaethau hyn, sydd â phroses ymgeisio ddiffwdan, yn un o'r prif ffyrdd y mae Twyni ar Symud yn cefnogi pobl ifanc yng Nghymru. **Meddai David Kilner, Swyddog Ymgysylltu Twyni ar Symud yng Nghymru, sydd wedi helpu i greu'r rhaglen fwrsariaeth:**

'Mae pobl ifanc ar draws y byd yn arwain y ffordd yn gwarchod ein byd. Rydym am i bobl ifanc Cymru fod ymysg yr arweinwyr hyn – naill ai yn ennill sgiliau ymarferol, yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil neu brosiectau ffilm bychain, neu'n helpu gyda'r ymchwil rydyn ni'n ei wneud. Rydym yn croesawu pob ymgeisydd, rhai sydd mewn addysg neu beidio, ac edrychwn ymlaen at glywed eich lleisiau yn ymuno â'n rhai ni wrth i ni warchod y lleoedd gwyllt, hardd a gwerthfawr hyn.'

**Dywedodd Julie Creer, Prif Gynghorydd Arbenigol, Cynefinoedd Arfordirol, Cyfoeth Naturiol Cymru:**

“Rydyn ni’n falch o fod yn lansio cynllun bwrsariaeth Twyni ar Symud i fyfyrwyr yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd y system gymorth hon yn helpu i roi hwb i yrfaeodd cadwraeth newydd ac yn caniatáu i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gwaith pwysig sy’n helpu i gadw twyni tywod Cymru yn iach.

“Gall cynlluniau o’r fath helpu i wneud gwahaniaeth aruthrol trwy greu gweithwyr cadwraeth proffesiynol y dyfodol. Yn ei dro, bydd hyn yn ein helpu i gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol Cymru gydag ecosystemau iach sy’n gweithio, a bydd hefyd yn cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol y genedl.”

I ddysgu mwy am y prosiectau i fyfyrwyr a phobl ifanc y gallwch gymryd rhan ynddynt, ac i wneud cais am fwrsariaeth Twyni ar Symud, ewch i <https://dynamicdunesCAPES.co.uk/get-involved/conservationists/>. Llwythwch y ffurflen syml un dudalen i lawr, a chysylltwch â David Kilner i drafod eich syniadau am brosiect.

**Delweddau: (Untro)**

Delwedd 1: Cwrs hyfforddiant gan Twyni ar Symud i bobl ifanc ar adnabod rhywogaethau planhigion twyni tywod yn Ne Cymru. Cynhaliwyd gan David Kilner



Delwedd 2: Cwrs hyfforddiant gan Twyni ar Symud i bobl ifanc ar adnabod rhywogaethau planhigion twyni tywod yn Ne Cymru. Cynhaliwyd gan David Kilner



Delwedd 3: Cwrs hyfforddiant gan Twyni ar Symud i bobl ifanc yn clirio prysgoed wedi gordyfu yn y twyni yn Ne Cymru. Cynhaliwyd gan David Kilner



**Cysylltu:**

David Kilner, Swyddog Ymgysylltu – Twyni ar Symud [David.kilner@plantlife.org.uk](mailto:David.kilner@plantlife.org.uk)

Emma Brisdion, Swyddog Cyfathrebu – Twyni ar Symud [Emma.brisdion@naturalengland.org.uk](mailto:Emma.brisdion@naturalengland.org.uk)

Dysgwch fwy am Twyni ar Symud ar wefan y prosiect ac ar y cyfryngau cymdeithasol:  
<https://dynamicdunescoapes.co.uk> @dynamicdunes



## Nodiadau i Olygyddion:

### Am Twyni ar Symud

Mae [Twyni ar Symud](#) yn brosiect partneriaeth sy'n adfer twyni tywod ar draws Cymru a Lloegr er lles bywyd gwyllt, pobl a chymunedau, ac a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE yr UE. Partneriaid y prosiect yw Natural England, Plantlife, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cornwall Wildlife Trust, Lincolnshire Wildlife Trust a Cumbria Wildlife Trust.

Mae twyni arfordirol Cymru a Lloegr yn gynefinoedd o bwys rhyngwladol i fywyd gwyllt, ac maent wedi'u rhestru fel un o'r amgylcheddau sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf yn Ewrop o ran colli bioamrywiaeth. Mae'r twyni hyn yn lloches i rywogaethau prin fel tegeirian y fign galchog, llyffant y twyni a madfall y tywod. Mae angen i dwyni tywod iach fod yn rhydd i symud ac maent yn cynnwys ardaloedd o dywod noeth i gynnal bywyd gwyllt arbenigol, ond mae llystyfiant a rhywogaethau ymledol wedi gorsefydlogi llawer o dwyni tywod. Mae'r prosiect yn gweithio gydag arbenigwyr medrus lleol a chenedlaethol, ac yn cynnwys ysgolion a grwpiau lleol, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr o bob oedran a gallu i helpu i adfywio'n twyni.

Rôl **Cyfoeth Naturiol Cymru** yw gofalu am adnoddau naturiol Cymru a'r hyn y maent yn ei ddarparu ar ein cyfer: helpu i leihau'r risg i bobl ac adeiladau o lifogydd a llygredd; gofalu am fannau arbennig ar gyfer llesiant pobl a bywyd gwyllt; darparu pren; a gweithio gydag eraill i'n cynorthwyo ni i gyd yn y gwaith o'u rheoli mewn modd cynaliadwy. Mae gan ein pobl y wybodaeth, yr arbenigedd a'r brwdfrydedd i helpu i wireddu'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. I gael rhagor o wybodaeth [www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)